


## HYSBYSIAD STATUDOL

I gael copi print bras o'r  
Hysbysiad hwn ffoniwch:  
0300 123 1590  
neu E-Bostiwch:  
[PEDW.Seilwaith@llyw.cymru](mailto:PEDW.Seilwaith@llyw.cymru)

## STATUTORY NOTICE

For a large print copy of this  
Notice phone: 0300 123 1590  
or E-Mail:  
[PEDW.infrastructure@gov.wales](mailto:PEDW.infrastructure@gov.wales)



**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd)  
Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016  
(fel y'i diwygiwyd)**

**Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd)**

**Cais Cynllunio Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)**

**Cais gan: Pennant Walters Ltd**

**Safle'r Cais: Tir 500m i'r Gorllewin o Abertyleri, Blaenau Gwent**

**Disgrifiad o'r datblygiad: Adeiladu a gweithredu Fferm Wynt o hyd at wyth Tyrbin, pob un â rotor tair llafn â diamedr o hyd at 150m, uchder hyb o hyd at 105m ac uchafswm uchder o 180m i flaen y llafn, a seilwaith cysylltiedig.**

**Hysbysir trwy hyn y bydd Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru, sef Melissa Hall BA(Anrh), BTP, MSc, MRTPI, yn cynnal Sesiynau Gwrandawriad ar:**

**Ddydd Mercher 30 Awst 2023 am 10:30 (Sesiwn 1) a 14:00 (Sesiwn 2)**

**a**

**Dydd Mercher 13 Medi 2023 am 10:30 (Sesiwn 3)**

**Cynhelir y Sesiynau hyn yn rhithwir trwy Microsoft Teams.**

**Rhoddir cyfarwyddiadau manwl i'r cyfranogwyr gwahoddedig, maes o law.**

Diben y Gwrandawriadau yw i'r Arolygydd glywed tystiolaeth ynglŷn â'r canlynol: Cymeriad a Golwg (Sesiwn Wrandawriad 1), Amodau Cynllunio (Sesiwn Wrandawriad 2) a Materion Eraill (Sesiwn Wrandawriad 3).

Sylwer, er bod y cyhoedd yn gallu arsylwi'r digwyddiadau, dim ond y rhai hynny a wahoddwyd yn benodol gan yr Arolygydd sydd â'r hawl i gymryd rhan. Dylai unrhyw un sy'n dymuno arsylwi'r achos gyflwyno cais i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) erbyn **dydd Mercher 16 Awst 2023** gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar waelod yr Hysbysiad hwn. Gwnewch yn siŵr fod yr holl ohebiaeth yn dyfynnu cyfeirnod y Cais – DNS/3270299 – Fferm Wynt Mynydd Carn-y-Cefn

Gall aelodau'r cyhoedd weld dogfennau'r Cais ar-lein yn:

<https://planningcasework.service.gov.wales/cy> - chwiliwch am '3270299' neu 'Mynydd Carn-y-Cefn'

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad ynglŷn â'r broses DNS ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-canllawiau>

Isabel Nethell  
Pennaeth Gwasanaeth

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru  
Adeilad Y Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 0300 123 1590  
E-Bost: [PEDW.Seilwaith@llyw.cymru](mailto:PEDW.Seilwaith@llyw.cymru)

Dyddiad: 02 Awst 2023